POLISI GWARCHOD DATA

1. DATGANIAD POLISI

1.1 Mae Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi ("ni", "ein") yn elusen gofrestredig (elusen rhif 231239) a chwmni cyfyngedig drwy warant (cwmni rhif 242794).

1.2 Yn ystod ein gweithgareddau, byddwn yn casglu, storio a phrosesu data personol ynglŷn â'r bobl y deuwn i gysylltiad â hwy, a sylweddolwn y bydd defnydd priodol o'r cyfryw ddata yn ennyn hyder ynom ni ac yn ein gweithgareddau.

1.3 Lluniwyd y polisi hwn er mwyn hysbysu pobl y cesglir eu data ("chi" neu "eich") o'r modd y bwriadwn sicrhau fod y cyfryw ddata yn cael ei gasglu, ei storio a'i brosesu yn unol â Deddf Gwarchod Data 1998 (y "Ddeddf").

2. EGWYDDORION GWARCHOD DATA

Rhaid i unrhyw un sy'n prosesu data personol gydymffurfio â'r wyth egwyddor ymarfer da yn y Ddeddf. Mae'r egwyddorion hyn yn sicrhau fod rhaid i ddata personol:

(a) Gael ei brosesu'n deg a chyfreithlon.

(b) Gael ei brosesu at ddibenion cyfyngedig ac mewn modd cymwys.

(c) Fod yn ddigonol, yn berthnasol, a heb fod yn ormodol at y diben.

(d) Fod yn gywir.

(e) Beidio â chael ei gadw'n hwy na sy'n angenrheidiol at y diben.

(f) Gael ei brosesu'n unol â hawliau'r bobl y mae'r data'n berthnasol iddynt.

(g) Fod yn ddiogel.

(h) Beidio â chael ei drosglwyddo i bobl neu sefydliadau sydd mewn gwledydd heb warchodaeth ddigonol.

3. GWYBODAETH A BROSESIR GENNYM

3.1 Ein prif weithgaredd yw hyrwyddo, cefnogi a chynorthwyo gweinidogaeth a chenhadaeth yr Eglwys yng Nghymru yn Esgobaeth Tyddewi. Mae hyn yn cynnwys cynhaliaeth i aelodau clerigol a lleyg yr Esgobaeth, gweinyddu cofnodion aelodaeth, hybu buddiannau'r Esgobaeth, codi arian, rheoli ein gweithwyr a'n gwirfoddolwyr, rheoli aelodau clerigol a lleyg yr Esgobaeth a chynnal a chadw ein cyfrifon, cyllid a chofnodion.

3.2 Mae'r math o wybodaeth a brosesir gennym ynglŷn â phobl y deuwn i gysylltiad â hwynt, gan gynnwys y bobl a enwir ym mharagraff 3.1, yn cwmpasu manylion

personol; manylion teuluol; manylion am ffordd o fyw ac amgylchiadau cymdeithasol; manylion aelodaeth; manylion ariannol; a manylion addysgol a chyflogaeth.

3.3 Mae gennym Blwyddlyfr a Chyfeiriadur Esgobaethol (y "Cyfeiriadur") sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol am glerigiaid, gweithwyr staff a gwirfoddolwyr lleyg o fewn i'r Esgobaeth, gan gynnwys eu henwau, eu cyfeiriadau, eu rhifau ffôn a'u cyfeiriadau ebost. Mae'r Cyfeiriadur yn adnodd bwysig tu hwnt o fewn i'r Esgobaeth, a mae'n gymorth i aelodau'r Esgobaeth gysylltu â'i gilydd.

3.4 Mae gennym hefyd Gamerau Teledu C.C. yn ein swyddfa, er mwyn diogelwch; felly, o reidrwydd, tynnir lluniau pobl sy'n ymweld â ni o dro i dro.

4. SUT Y DEFNYDDIWN EICH GWYBODAETH

4.1 Wrth gyflawni ein gweithgareddau, mae'n bosib y casglwn ac y proseswn y data personol a ddisgrifir ym mharagraff 3. Efallai y bydd hyn yn cynnwys data a ddaw'n uniongyrchol oddiwrthych (er enghraifft, pan gwblhewch ffurflenni neu pan gysylltwch â ni drwy lythyr, ffôn, ebost neu fel arall) a data a ddaw o ffynhonellau eraill (gan gynnwys, er enghraifft, cyrff y gweithiwn gyda hwy a/neu sy'n darparu gwasanaethau i ni, asiantaethau credyd ac eraill).

4.2 Mae'n bosib y defnyddiwn eich gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'n gweithgareddau cyffredinol (gan gynnwys y rheiny a ddisgrifir ym mharagraff 3.1) ac i'r dibenion ychwanegol canlynol: rhoi cyhoeddusrwydd i weithgareddau'r Esgobaeth (gan gynnwys lledaenu cylchlythyrau a gwybodaeth), darparu addysg a gofal bugeiliol i bobl o fewn yr Esgobaeth, rheoli ein heiddo a'n hasedau a chynnal a dosbarthu'r Cyfeiriadur.

4.3 Mae'r wybodaeth bersonol a gyhoeddir yn y Cyfeiriadur, gennym ar fâs-data a drefnir gan ein gweithwyr staff oddi fewn i'r swyddfeydd. Rhoddir copïau caled o'r Cyfeiriadur i aelodau'r Esgobaeth, a maent hefyd ar gael (am bris isel) i bersonau eraill sy'n gofyn am gopi, er enghraifft darparwyr gwasanaethau megis cyfarwyddwyr angladdau.

5. DATA CYWIR

Gwnawn ein gorau glas i ddiweddaru eich data personol sydd yn ein meddiant, yn arbennig lle y rhowch wybod i ni y bydd angen y cyfryw ddiweddaru. Gwnawn ein gorau hefyd i ddileu neu newid data sy'n anghywir neu sydd ar ei hôl hi.

6. PROSESU AMSEROL

Ni fyddwn yn cadw data personol am fwy o amser nag y credwn sy'n weddol angenrheidiol o ran diben neu ddibenion casglu'r cyfryw ddata. Byddwn yn barod, yn ogystal, hyd y medrwn, i ddinistrio, neu ddileu o'n systemau, ddata nad oes ei angen arnom mwyach.

7. DIOGELWCH A CHADWRAETH DATA

7.1 Gofalwn fod mesurau diogelwch addas mewn lle i atal prosesu anghyfreithlon neu ddiawdurdod o ddata personol sydd yn ein meddiant, ac i atal colli damweiniol neu ddifrod i, ddata personol sydd yn ein meddiant.

7.2 Cadwn y data a gasglwn gennych, ar weinyddion diogel, mewn côd, naill ai wedi eu rheoli'n uniongyrchol gan staff TGG yr Eglwys yng Nghymru yng Nghorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru neu mewn canolfan ddata yn y DU sy'n gorfod cynnal lefelau diogelwch o'r un safon. Gwnawn bopeth, hyd y gallwn, i sicrhau fod eich data yn gwbl ddiogel ac wedi ei warchod rhag pob math o drosedd seibr.

8. DADLENIAD A RHANNU GWYBODAETH BERSONOL

Mae'n bosib y dadlennwn eich data personol i rywrai eraill, a bwrw ein bod dan ddyletswydd i wneud hynny er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfraith, neu er mwyn gorfodi neu weithredu cytundeb neu debyg, â chi; neu i warchod ein hawliau, ein heiddo, ein gweithwyr staff a'n gwirfoddolwyr neu'r clerigiaid ac aelodau eraill ein Hesgobaeth. Mae'n bosib hefyd, y rhannwn y data personol sydd gennym, â grwpiau a chymdeithasau eraill sy'n gysylltiedig â'r Esgobaeth, gan gynnwys Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, Undeb y Mamau, Pwyllgor Pensiynau a Chymorth Tyddewi, Ysgolion Eglwys, Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth a Chymdeithas Dai Esgobaeth Tyddewi, y Cyngor Esgobaethol dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol, cynghorau plwyf eglwysig a rhai o blith y clerigiaid sydd angen yr wybodaeth er mwyn cyflawni gweithgareddau yn yr Esgobaeth.

9. EICH HAWLIAU

9.1 Dan amodau'r Ddeddf Gwarchod Data 1998, gallwch ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch. Anfonwch geisiadau ysgrifenedig, os gwelwch yn dda at Mr Howard Llewellyn, Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi, Swyddfa'r Esgobaeth, Abergwili SA31 2JG neu ebostiwch ni ar Diocese.stdavids@churchinwales.org.uk. Mae hawl gennym godi tâl o £10 at ein costau o gyflenwi manylion yr wybodaeth sydd gennym amdanoch.

9.2 O sylweddoli fod unrhyw ran o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch yn anghywir neu ar ei hôl hi, gellwch ein ebostio ar Diocese.stdavids@churchinwales.org.uk neu ysgrifennu atom - Mr Howard Llewellyn, Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi, Swyddfa'r Esgobaeth, Abergwili SA31 2JG gan esbonio'r manylion sydd, yn eich tyb chi, yn anghywir neu ar ei hôl hi.

10. NEWIDIADAU I'R POLISI HWN

Cadwn yr hawl i newid y polisi hwn pa bryd bynnag y mynnwn. Lle bo'n addas, fe'ch hysbyswn o'r newidiadau hynny drwy'r post neu ebost.